

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod

Noddir gan Siân Gwenllian AS

29 Ebrill 2022

Zoom, 11:30 – 12:30

Yn bresennol:

Sian Gwenllian AS (Cadeirydd)
 Carolyn Thomas AS
 Vaughan Gething AS
 Hade Turkmen, Chwarae Teg
 Nancy Lidubwi, Bawso
 Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru
 Nkechi Allen Dawson, Cyngor Hil Cymru
 Rhian Connick, NFWI
 Megan Thomas, Anabledd Cymru
 Dee Montague, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)
 Claire Morgan, Gofalwyr Cymru
 Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd
 Ele Hicks, Diverse Cymru
 Jane Fenton-May, Menywod yn Ewrop (Cymru)
 Kirsty Fox, Camlas
 Domenica Hidalgo, LSE (Siaradwr)
 Parbon Khan, LSE (Llefarydd)
 Evelyn James, WEN Cymru
 Jennifer Ramsay, Swyddfa Paul Davies AS
 Jessica Laimann, WEN Cymru (Siaradwr)

Ymddiheuriadau:

Sarah Murphy AS
 Delyth Jewell AS
 Janet Finch-Saunders AS
 Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)
 Tomos Evans, Chwarae Teg
 Frances Beecher, Llamau
 Suzy Davies, Aelod Bwrdd, WEN Cymru

<p>1</p>	<p>Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad – Cadeirydd</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb, a dywedodd mai pwrpas y cyfarfod oedd clywed pam bod angen adferiad sy'n canolbwyntio ar ofal yng Nghymru a chlywed ymateb gan Vaughan Gething AS.</p>
<p>2</p>	<p><i>Pam bod angen adferiad sy'n canolbwyntio ar ofal arnom yng Nghymru – Jessica Laimann, WEN Cymru</i></p> <p>Dywedodd Jessica Laimann y byddai'r cyflwyniad yn dwyn ynghyd rai pwyntiau allweddol o gyflwyniad yr Athro Himmelweit yn y cyfarfod diwethaf yn ogystal â data penodol i Gymru.</p> <p>Roedd y pandemig wedi dadwneud blynyddoedd o gynnydd ar degwch rhwng y rhywiau gydag effaith arbennig o amlwg ar rieni sengl, menywod anabl a menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gwaethygyd hyn bellach gan argyfwng costau byw heb unrhyw ddiwedd ar y gorwel. Cyflwynodd Jessica rai ffeithiau allweddol ar</p>

anhydraddoldeb economaidd menywod yng Nghymru a oedd yn dangos bod cysylltiad hanfodol rhwng hyn a'u rôl mewn gofal â thâl a gofal di-dâl. Er bod y pandemig wedi dangos mai gofal oedd asgwrn cefn cymdeithas, roedd y sector mewn argyfwng, gyda chyflogau ac amodau gwael a phroblemau staffio yn arwain at anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu a chanlyniadau gofal gwaeth. Roedd 80% o'r gweithlu yn fenywod ac roedd gorgynrychiolaeth o fenywod o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y rolau â'r cyflog isaf. Ar yr un pryd, Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o ofal henoed ym Mhrydain Fawr, yr oedd y mwyafrif llethol (96%) o fenywod.

Roedd y ffigurau hyn yn dangos yn glir bod angen buddsoddiadau mewn gofal ar frys i wella cydraddoldeb menywod a mynd i'r afael ag effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw ar fenywod. Mae angen i hyn gynnwys:

- Gofal plant fforddiadwy a hygyrch i bob plentyn o 6 mis ymlaen
- Gwell cyflog, amodau a strwythur gyrfa yn y gweithlu gofal trwy gyflog byw go iawn ar draws y sector, gwell dilyniant gyrfa, cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles gweithwyr gofal
- Gofal di-dâl yn dod yn ddewis yn hytrach nag yn anghenraid, gan alluogi mwy o fenywod i fynd i mewn, aros neu symud ymlaen mewn cyflogaeth â thâl
- Herio normau rhywedd a gofal presennol

Ond nid mater o gydraddoldeb rhywiol yn unig oedd manteision buddsoddi mewn gofal. Roedd buddsoddiadau o'r fath hefyd:

- Yn economaidd gadarn drwy wella gwydnwch cymdeithas ac economi Cymru i argyfyngau pellach a lleihau costau hirdymor drwy ddiwallu anghenion gofal a chymorth a gwella llesiant.
- Yn unol ag amcanion sero net, oherwydd bod swyddi yn y maes gofal ond yn cynhyrchu cyfran fach o allyriadau ar gyfer swydd gyfartalog ac yn defnyddio llai o fewnbynnau a gynhyrchir yn uniongyrchol.
- Yn ymateb effeithiol i argyfwng costau byw trwy godi'r rhai yr effeithiwyd arnynt waethaf, gan gynnwys gweithwyr gofal mewn cyflogaeth ansicr ar gyflog isel, pobl â chyfrifoldebau gofalu di-dâl, pobl anabl a phobl hŷn.
- Yn gam hollbwysig tuag at economi llesiant
- Yn adlewyrchu egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Yn ogystal, roedd buddsoddiadau mewn gofal yn ysgogiad cyflogaeth rhagorol. Roedd gwaith ymchwil gan yr Athro Himmelweit yn dangos, o gymharu â buddsoddiadau tebyg mewn adeiladu, byddai buddsoddiadau mewn gofal yn cynhyrchu nifer llawer uwch o swyddi i fenywod ac yn creu nifer tebyg o swyddi i ddynion. Byddent yn ehangu'r cyflenwad llafur, nid yn unig y galw amdano, ac yn adennill mwy o refeniw drwy gynyddu cyflogaeth yn gyffredinol.

	<p>Roedd hyn yn arbennig o wir am Gymru. Oherwydd natur wahanol economi Cymru, o gymharu â'r DU roedd y buddion cyflogaeth cymharol yn debygol o fod yn uwch. Roedd economi lai yng Nghymru, ac yn agored iawn i weddill y DU, a oedd yn golygu y byddai llai o swyddi'n cael eu creu yn y gadwyn gyflenwi ac o wariant ychwanegol yn cael eu gwireddu yng Nghymru. O gymharu â buddsoddiadau mewn diwydiannau sy'n drwm o ran cadwyn gyflenwi fel adeiladu, byddai buddsoddiadau mewn gofal yn creu buddion cyflogaeth cymharol uwch fyth yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol.</p> <p>I grynhoi, roedd angen buddsoddi mewn gofal ar frys i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig a'r argyfwng costau byw ar fenywod. Roedd angen cydnabod gwariant ar ofal fel buddsoddiad cadarnhaol, hirdymor, nid cost yn unig, gan y byddai'n dod â buddion hirdymor nid yn unig ar gyfer cydraddoldeb rhywiol ond hefyd o ran lleihau tlodi a diweithdra, gwella cadernid economaidd a chymdeithasol, cefnogi'r cyfnod pontio sero net a gweithredu'r diwygiadau Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p>
<p>3</p>	<p>Ymateb gan Vaughan Gething AS</p> <p>Dywedodd Vaughan Gething fod angen buddsoddiadau yn y sector gofal am nifer o resymau, gan gynnwys cynnydd mewn anghenion gofal a chymorth yn dilyn y pandemig a newidiadau demograffig.</p> <p>Roedd yn cydnabod bod mai menywod yn bennaf oedd y gweithlu a'u bod ar gyflog isel, a dyna'n rhannol pam roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r cyflog byw go iawn yn y sector. Roedd yn gweithio i sicrhau y byddai'r cynnydd mewn cyflog yn mynd i becynnau cyflog y gweithwyr yn y pen draw ar draws gwahanol ddarparwyr mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y trydydd sector a chymdeithasau tai. Roedd yn ymwybodol bod llawer o weithwyr eisoes yn derbyn y cyflog byw go iawn ond roedd nifer fawr nad oedd yn ei gael o hyd, a byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod yr arian yn mynd i bocedi gweithwyr gofal ac nid yn elw i gyflogwyr. Roedd cael strwythur bargeinio a chyflogau priodol yn bwysig fel na fyddai cyflogwyr gwell yn cael eu tanseilio gan gystadleuwyr a oedd yn buddsoddi llai yn eu gweithlu.</p> <p>Roedd yn bwysig codi statws y gweithlu, a fyddai angen cynnwys mwy o broffesiynoli a chymwysterau. Roedd angen llawer o sgiliau ar gyfer gwaith gofal ac roedd Llywodraeth Cymru yn anghytuno â dull Llywodraeth y DU o frandio'r sector gofal fel un sgil isel. Roedd gwneud y gwelliannau hyn hefyd yn hanfodol ar gyfer cadw a recriwtio staff, neu fe fyddai pobl yn symud i sectorau fel manwerthu i gael gwell cyflog ac amodau.</p> <p>Roedd cytundeb eang bod angen y mesurau hyn, y cwestiwn oedd pa mor gyflym y gallai Llywodraeth Cymru gyrraedd yno. Roedd gofal yn sector economi sylfaen bwysig – pe bai'n cyflogi mwy o bobl ar amodau gwell byddai hynny'n fuddiol oherwydd byddai'r arian yn cael ei wario mewn economïau lleol yn hytrach na diflannu i Ynysoedd Prydeinig y Wryf neu wyngalchu arian. Roedd her yn parhau o ran ble i</p>

	<p>ddod o hyd i arian ar gyfer buddsoddiadau yn y gyllideb, gan fod yr ymrwymiad wedi'i wneud cyn y setliad cyllidebol diwethaf a oedd yn siomedig i Gymru ond mae'r ymrwymiad yn parhau.</p> <p>Roedd angen i ni fynd i'r afael â stereoteipiau ac annog menywod i faes sy'n denu dynion yn draddodiadol fel STEM yn ogystal â buddsoddi mewn gofal i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd. Roedd tystiolaeth y byddai hyn hefyd o fudd i fusnesau gan fod gweithleoedd cymysg o ran rhyw yn darparu canlyniadau gwell.</p> <p>Dros dymor y Senedd, byddai Llywodraeth Cymru yn cadw at ei haddewidion ac roedd eisiau gweld mwy o bobl yn y sector a oedd â chymwysterau gwell ac yn talu'n well, gan gynnwys y gweithlu gofal plant. Dywedodd Vaughan Gething AS y byddai'n hapus i ddod yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol hefyd i rannu ymateb ysgrifenedig yn amlinellu rhai o'r gweithgareddau a oedd eisoes ar y gweill yn ogystal â'r gweledigaethau a'r disgwyliadau ar gyfer gweld menywod yn chwarae mwy o ran mewn rhannau eraill o'r economi. Roedd yn cydnabod bod buddsoddi mewn gofal yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn awyddus i gael y sgysiau hynny.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i Vaughan Gething AS am ei ymateb cadarnhaol ac awgrymodd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu ato i ofyn am drosolwg o'r hyn sy'n digwydd ar y themâu a drafodwyd heddiw. Yna gellid dilyn hyn gan ymchwilio'n drylwyr i rai meysydd lle gallai fod angen rhagor o waith a sicrhau bod hyn yn cael ei ddwyn ynghyd a'i godi ar lefel drawslywodraethol.</p>
<p>3</p>	<p><i>Understanding and Shifting Narratives to Value Women's Work</i> - Parbon Khan a Domenica Hidalgo, Prosiect ymchwil ar y cyd gan Adran Datblygu Rhyngwladol LSE ac Oxfam</p> <p>Diolchodd y siaradwyr i'r Grŵp Trawsbleidiol am y cyfle i gyflwyno eu gwaith. Dywedodd Parbon Khan fod yr ymchwil yn brosiect ar y cyd a oedd â'r nod o gyfrannu at strategaeth Gwerthfawrogi Gwaith Merched Oxfam drwy nodi a deall y naratifau sydd gan gynulleidfaoedd gwahanol ar ofal di-dâl a gwaith anffurfiol. Roedd yr ymchwil yn trafod y DU, Palestina, Kenya a Zimbabwe.</p> <p>Amlinellodd Domenica Hidalgo sefyllfa'r byd gofal yn y DU. Roedd cysylltiad cryf rhwng tlodi a gofal di-dâl, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi pobl hŷn a phobl anabl, y rhai sy'n gofalu am blant, gwaith anffurfiol ac yn enwedig menywod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig. Roeddent wedi nodi tri naratif problematig a oedd yn parhau â'r sefyllfa hon:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Menywod sy'n bennaf cyfrifol am ofal di-dâl a gwaith domestig 2) Mae menywod yn "ail enillwyr" 3) Mae nawdd cymdeithasol yn gost yn hytrach na buddsoddiad

	<p>Ond roedd yna hefyd botensial o naratifau trawsnewidiol a allai helpu i ysgogi newid, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Dylid dosbarthu cyfrifoldebau gofalu yn deg 2) Mae buddsoddi mewn gofal yn fwy buddiol nag y mae'n gostus <ol style="list-style-type: none"> a) Mae buddsoddi mewn gofal cymdeithasol cyffredinol yn dod ag ymreolaeth ac urddas yn ôl i ofalwyr a'r rhai a gefnogir ganddynt b) Mae rhannu cyfrifoldebau gofal plant yn arwain at blant hapusach ac iachach <p>Er bod y DU wedi datblygu mewn llawer o ddimensiynau o gymharu â gwledydd eraill yn yr astudiaeth, parhaodd menywod i gymryd cyfran anghymesur o ofal di-dâl a gwaith domestig. Felly roedd llawer o waith i'w wneud o hyd mewn polisi a chymdeithas sifil i fynd i'r afael â'r materion hyn.</p>
<p>4</p>	<p>Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol</p> <p>Dywedodd Carolyn Thomas AS fod adeiladu yn ôl trwy ofal yn ddull rhagorol o greu cyflogaeth ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Roedd yn bwysig edrych ar gyflogaeth uniongyrchol os yn bosibl. Roedd yna achos o rywun a oedd yn cael ei gyflogi gan asiantaeth fel rheolwr am £9 yr awr tra bod yr asiantaeth yn cael £30 yr awr mewn pecyn gan Gyngor Caerdydd, a ddywedodd na allent gyflogi pobl yn uniongyrchol. Roedd yr asiantaeth dan sylw wedi ennill llawer o wobrau ond, wrth siarad â'r gweithlu, gwelwyd darlun gwahanol iawn a oedd hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn trosiant staff uchel. Ychwanegodd fod rhywfaint o waith da ar ddilyniant gyrfa eisoes ar y gweill gan fod Grŵp Llandrillo Menai wedi bod yn gweithio gyda gweithwyr gofal ar ddatblygu llwybr gyrfa i nyrsio.</p> <p>Tynnodd Alison Parken sylw at y ffaith bod prif-ffrydio cydraddoldeb a'r peilot pontio i sero net wedi creu teipoleg o swydd hinsawdd, a oedd yn cynnwys gofal mewn categori o swyddi sy'n isel o ran allyriadau.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod hwn yn fater trawsbynciol ac y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Roedd yn bwysig parhau i godi proffil y mater hwn a dod â gwahanol ddeiliaid portffolio ynghyd, a sicrhau bod rhywun yn arwain y ffordd ar hyn, o bosibl drwy ddatblygu strategaeth drawslywodraethol.</p> <p>O ran llesiant ac ail enillwyr, dywedodd Alison Parken fod y trothwyon presennol ar gyfer ail enillwyr yn achosi dibyniaeth ac yn atal cyflogau menywod. Dangosodd ymchwil ar fenywod ar gyflog isel ym maes gofalu a glanhau y byddai'r rhain yn aml yn cael contractau 10-12 awr ac yn dibynnu ar eu cyflogwr yn cynnig oriau ychwanegol iddynt ond hefyd yn gorfod aros o dan y trothwy fel arall gallai'r aelwyd gyfan golli mwy o arian na'r hyn y maent yn ei ennill yn ychwanegol.</p>

	<p>Ategwyd hyn gan Jane Fenton-May. Fel meddyg teulu a oedd yn cyflogi pobl yn rhan-amser, roedd y trothwy wedi golygu y byddai angen jyglo oriau ar ôl codiad cyflog blynyddol ac wedi achosi anawsterau gwirioneddol mawr wrth gyflenwi absenoldeb salwch gan y gallai pobl wneud colled net o incwm y cartref yn y pen draw o weithio oriau ychwanegol. Roedd hon yn broblem barhaus.</p> <p>Pwysleisiodd Evelyn James fod angen i ni sicrhau bod profiad byw wrth wraidd y newid mewn naratifau a herio'r mythau bod menywod i fod i ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau hyn. Roedd angen newid polisi a newid diwylliant i annog rhannu cyfrifoldebau gofalu a menywod yn camu i rolau "dynion".</p> <p>Tynnodd Carolyn Thomas AS sylw at y ffaith bod y system fudd-daliadau flaenorol gyda chredyd treth teulu a phlant wedi bod yn llai anodd na'r system credyd cynhwysol newydd, gan fod y system flaenorol yn seiliedig ar incwm blynyddol ac yn rhoi mwy o sefydlogrwydd. Byddai ehangu gofal plant am ddim i blant dwyflwydd oed yng Nghymru yn gam pwysig ymlaen ond mewn gwirionedd roedd angen hyn o'r adeg y mae absenoldeb mamolaeth i ben, felly roedd yn rhaid gwneud llawer mwy.</p> <p>Mewn ymateb i'r cwestiynau, crynhodd Parbon Khan a Domenica Hidalgo fod enillion eilaidd wedi dod i'r amlwg fel mater allweddol o anghydraddoldeb economaidd yn y drafodaeth. Roedd yn bwysig cydnabod mai cyfrifoldebau gofalu annheg oedd yr ysgogiad y tu ôl i hyn a dylunio polisi gyda lens groestoriadol a oedd yn cydnabod yr heriau anghymesur i fenywod du a lleiafrifoedd ethnig.</p>
<p>5</p>	<p>Unrhyw fater arall</p>
<p>6</p>	<p><i>Cloi</i></p>